"I led the development of BACK-on-LINE™, a digital personalised self-management tool designed to support people with low back pain, especially those in under-served working populations. My team have since partnered with getUBetter, a commercial NHS-approved digital health platform. Together, they are

integrating the BACK-on-LINE™ classifier into the getUBetter platform. This collaboration attracted a £750,000 NIHR grant. The trial will test the getUBetter platform, incorporating our AI tool, in the rail industry to assess its application in real-world occupational health settings."

What opportunities has the Centre created for researchers like Liba?

"The Centre gave me invaluable hands-on experience in working across disciplines, an essential skill in today's academic landscape. Its success lies in its interdisciplinary approach, diverse team and strong clinical infrastructure.

Thanks to the Centre's supportive culture, I now feel confident collaborating with experts from other fields, something that researchers may find quite daunting. It has played a key role in building my confidence and capability to work effectively with people who bring different perspectives and expertise."

Stori Cathy

“Dwi’n Athro Biomecaneg a Pheirianneg Orthopedig, Cyfarwyddwr y Cyfleuster Ymchwil Biomecaneg Cyhyrsgerbydol, a chyd-sylfaenydd y Ganolfan.”



Sut mae ymchwil Cathy wedi helpu i hybu'r maes?

“Mae ein darganfyddiadau yn adeiladu ac yn gwella offer i gofnodi'r mesuriadau rydyn ni eisiau eu gwneud. Gyda'r offer hyn, gallwn ni wella ein dealltwriaeth o sut mae unigolion sydd ag osteoarthritis yn symud, ac o bosibl helpu i wella eu triniaeth yn y dyfodol.

Er enghraifft, rydyn ni wedi casglu gwybodaeth hydredol gan bobl sydd wedi cael llawdriniaeth osteotomi y tibia uchaf (HTO) ers 2010. Ers dechrau'r 2000au mae llawfeddygon wedi perfformio HTO i helpu unigolion sydd ag osteoarthritis yn y pen-glin. Serch hynny, dim ond yn 2020 y gwnaethon ni gyfuno ein data â modelau cyfrifiadurol er mwyn dangos bod y llawdriniaeth hon yn gweithio – mae'n newid llwyth y pen-glin yn y ffordd y bwriedir iddi weithio. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i glinigwyr a chleifion bod HTO yn llawdriniaeth effeithiol.”

Beth mae Cathy yn gweithio arno nesaf?

“Yn ddiweddar, rydyn ni wedi cael cyllid i wneud mwy o waith ymchwil cyffrous. Mae hyn yn cynnwys cofnodi symudiadau gyda chymorth pelydr-X fideo a MRI, i greu cofnodion amser real – y cyntaf o'u math yn y byd - o'r ffordd mae ein cymalau, ein cyhyrau a'n meinweoedd yn rhyngweithio yn ystod gweithgareddau bywyd bob dydd. Ar y cyd ag Imperial College London rydyn ni hefyd yn ymchwilio i ansefydlogrwydd y

pen-glin, un o'r prif bethau sy'n achosi i gymalau newydd fethu ar ôl llawdriniaeth pen-glin. Rydyn ni'n bwriadu adeiladu piblinell o offer peirianneg a all ein helpu i ddeall pam mae ansefydlogrwydd yn digwydd a dylunio mewnbaniadau newydd sy'n perfformio'n well. Efallai y byddwn ni'n gallu defnyddio ein canfyddiadau i lywio asiantaethau safonau a gwella'r broses o gynnal profion ar fewnbaniadau yn y dyfodol.”

Beth sydd wedi sbarduno'r llwyddiant sy'n dod allan o'r Ganolfan?

“Ansawdd a dygnwch ein hacademyddion ac ymchwilwyr anhygoel sy'n gweithio ar draws disgyblaethau, sy'n heriol iawn. Mae'r Ganolfan wedi hyfforddi ffisiotherapyddion a chlinigwyr i wneud gwaith ymchwil clinigol. Mae cyllid

cyson gan y Ganolfan wedi ein galluogi i gynnal astudiaethau hirach ar gleifion er mwyn cofnodi taith y claf, casglu samplau gwerthfawr, a datblygu offer sy'n cael eu defnyddio gan ymchwilwyr eraill ledled y byd.”

Cathy's story

"I am a Professor of Biomechanics and Orthopaedic Engineering, Director of the Musculoskeletal Biomechanics Research Facility, and co-founder of the Centre."



How has Cathy's research helped to push forward the field?

"The discoveries we are making are building and improving tools to capture the measurements we want to make. With these tools, we can improve our understanding of how people with osteoarthritis move and potentially help improve their treatment in the future."

For example, we have gathered longitudinal information from people having high tibial osteotomy (HTO) surgery since 2010. Surgeons have performed HTO to help people with knee osteoarthritis since the early 2000s. However, it was only in 2020 that we combined our data with computer models to demonstrate that this surgery does work – it changes the knee loading how it is meant to. This reassures clinicians and patients that HTO is an effective surgery."

What is Cathy working on next?

"We've recently been awarded funding to do more exciting research. One to combine motion capture with video X-ray and MRI, to build world-first and real-time recordings of how our joints, muscles and tissues interact during activities of daily living. And another with Imperial College London to investigate knee instability, a major cause

for joint replacements to fail following knee replacement. We plan to build a pipeline of engineering tools that can help us understand why instability happens and design new implants that perform better. We might be able to use our findings to inform standards agencies and improve implant testing in the future."

What has driven the successes coming out of the Centre?

"The quality and tenacity of our amazing academics and researchers who work across disciplines, which is very challenging. The Centre has trained physiotherapists and clinicians to do clinical research. Consistent

funding from the Centre has allowed us to run longer studies on patients to record the patient journey, collect valuable samples, and develop tools that are being used by other researchers around the world."

03

Datgloi achosion a thriniaethau osteoarthritis newydd

Pam mae hyn yn bwysig i unigolion sydd ag arthritis?

Mae'r ffordd y mae ein cymalau wedi'u
llwytho yn dylanwadu ar ein risg o
ddatblygu osteoarthritis.

Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae symudiadau
neu lwythi annormal yn cynyddu'r risg o ddatblygu
a gwaethygu osteoarthritis dros amser. Mae
ymchwil y Ganolfan yn edrych ar ddulliau penodol
o archwilio llwyth ac osteoarthritis gan ddefnyddio
samplau a modelau i ddod o hyd i fiofarcwyr a
thargedau a allai drin, atal neu rwystro'r clefyd.



03

Unlocking new osteoarthritis causes and treatments


Why is this important to people with arthritis?

The way our joints are loaded influences our risk for developing osteoarthritis.

However, it's unclear how abnormal movements or loads increase the risk of osteoarthritis developing and progressing over time. Centre research is exploring load-specific mechanisms underlying osteoarthritis using samples and models to find biomarkers and targets that could potentially treat, halt or prevent the disease.



Genynnau sy'n esbonio pam mae menywod yn teimlo mwy o boen osteoarthritis



Er mwyn deall achosion mecanyddol osteoarthritis yn well a phrofi triniaethau posibl yn ddiogel, mae ymchwilwyr y Ganolfan wedi datblygu modelau sy'n dynwared osteoarthritis gan ddefnyddio celloedd o asgwrn, cartilag a nerfau. Mae'r modelau hyn yn ategu'r defnydd o fodelau anifeiliaid a dynol.

Mae'r modelau hyn yn efelychu cyflyrau tebyg i osteoarthritis mewn bodau dynol i ddeall beth sy'n achosi dirywiad, poen a chwydd yn y cymalau, ac yn y pen draw beth sy'n achosi osteoarthritis.



Gwybodaeth newydd

O'r modelau hyn, mae ymchwil y Ganolfan wedi dangos bod llwytho mecanyddol yn:

- Rheoleiddio dros 7,500 o enynnau yn yr asgwrn sy'n gysylltiedig â phoen, llid a dirywiad oherwydd osteoarthritis.
- Rheoleiddio dros 200 o enynnau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch a thwf nerfau.
- Rheoleiddio genynnau sy'n gysylltiedig â phoen mewn celloedd esgyrn o'r enw osteocytâu mewn menywod yn fwy nag mewn dynion. Gallai hyn helpu i esbonio pam mae menywod ag osteoarthritis ddwywaith yn fwy tebygol o brofi poen na dynion.



Rhwydweithiau newydd


Mae partneriaid yn y diwydiant bellach yn defnyddio modelau'r Ganolfan i helpu i astudio meddyginiaethau er mwyn trin osteoarthritis mewn cŵn.



Cyllid wedi'i drosoli

Mae modelau'r Ganolfan wedi denu grantiau sy'n fwy na £1 miliwn gan y National Centre for the Replacement, Refinement and Reduction of Animals in Research, Orthopaedics Research UK, Wellcome Trust a byd diwydiant. Nod y grantiau mwyaf hyn yw datblygu model 3D arloesol sy'n ail-greu rhyngweithiadau rhwng esgyrn a nerfau, er mwyn ymchwilio i sut mae poen a thraul asgwrn yn gysylltiedig ag osteoarthritis. Gallai hyn helpu i gyflymu'r broses o ddarganfod triniaethau newydd, tra hefyd yn lleihau'r angen am astudiaethau sy'n defnyddio anifeiliaid.

Genes that explain why women feel more osteoarthritis pain



To better understand the mechanical causes of osteoarthritis and test potential treatments safely, Centre researchers have developed models that mimic osteoarthritis using cells from bone, cartilage and nerves. These models complement the use of animal and human models.

These models simulate human osteoarthritis-like conditions to understand what causes joint degeneration, pain and swelling, and ultimately causes osteoarthritis.



New knowledge

From these models, Centre research has shown that mechanical loading:

- Regulates over 7,500 genes in bone associated with osteoarthritis-related pain, inflammation and degeneration.
- Regulates over 200 genes linked with nerve activity and growth.
- Regulates genes linked with pain in bone cells called osteocytes in women more so than men. This could help explain why women with osteoarthritis are twice as likely to experience pain than men.



New networks

Industry partners are now using these Centre models to help study medicines to treat osteoarthritis in dogs.



Leveraged funding

Centre models have leveraged grants exceeding £1 million from the National Centre for the Replacement, Refinement and Reduction of Animals in Research, Orthopaedics Research UK, Wellcome Trust and industry. The largest of these awards aims to develop an innovative 3D model that recreates interactions between bones and nerves, to investigate how pain and bone breakdown are linked in osteoarthritis. This could help speed up the discovery of new treatments, whilst also reducing the need for animal studies.

Atal osteoarthritis ar ôl anaf

Gall cyflwr o'r enw osteoarthritis wedi trawma (PTOA) ddatblygu ar ôl anaf trawmatig i'r cymal megis anaf i'r ligament croesffurf blaen.

Mae PTOA yn cynnig cyfle unigryw i ddeall osteoarthritis, oherwydd mae man cychwyn y cyflwr yn fwy amlwg nag mewn osteoarthritis cyffredinol (hynny yw, mae'n dechrau yn syth ar ôl anaf). Mae hyn yn caniatáu i ymchwilyr ddeall osteoarthritis yn ei gyfnodau cynharaf a dilyn sut mae'r clefyd yn datblygu dros amser, gan ehangu'r cyfle i atal neu arafu ei ddatblygiad.




Gwybodaeth newydd

Dysgodd ymchwilyr y Ganolfan fod yna ddau gyfnod eang sy'n arwain at ddatblygiad PTOA llid cyflym sy'n dechrau niweidio meinwe'r cymal yn syth, ac yna, traul hirdymor y cymal mecanyddol. Mae gwybod hyn yn golygu y gellir nodi ac astudio triniaethau a'u targedu at gyfnod datblygiad y cyflwr.

- Mae derbynyddion cainate glwtamad (kainate glutamate) ac AMPA, proteinau a geir ar wyneb celloedd cymalau ac a fynegir mewn cymalau osteoarthritis, yn darged posibl i drin PTOA. Pan gafodd ei flocio mewn llygod, cafodd chwydd a difrod i'r cymalau eu gostwng hyd at 45%.

Targed meddyginiaeth i drin PTOA



Eiddo deallusol

Mae patentau ar gyfer y targed posibl hwn i drin PTOA wedi'u cymradwyo yn yr Unol Daleithiau, Ewrop a Tsieina.



Rhwydweithiau newydd

Mae meddyginiaethau ymchwilol addawol sy'n defnyddio'r dull hwn bellach yn cael eu harchwilio o'r patent hwn, mewn cydweithrediad â phartneriaid diwydiant er mwyn trin PTOA. Mae'r meddyginiaethau hyn wedi cael eu defnyddio'n ddiogel mewn bodau dynol ar gyfer clefydau eraill a gellid eu hailbwrpasu'n gyflym ar gyfer atal osteoarthritis.



Cynnwys cleifion a'r cyhoedd


Mae'r dulliau treial y gellid eu defnyddio i brofi'r meddyginiaethau hyn yn cael eu llunio gyda phrofiad byw, gan nodi eu blaenoriaethau a'u dymuniadau i hybu ymgysylltiad ag astudiaeth glinigol yn y dyfodol.

Preventing osteoarthritis after injury

A condition called post-traumatic osteoarthritis (PTOA) can develop after a traumatic joint injury such as anterior cruciate ligament injury.

PTOA offers a unique opportunity to understand osteoarthritis, because the starting point of the condition is more defined than in general osteoarthritis (that is, it begins right after injury). This allows researchers to understand osteoarthritis in its earliest stages and track how the disease unfolds over time, expanding the window of opportunity to prevent or slow down its progression.

Drug target to treat PTOA



New knowledge

Centre researchers learned that there are two broad stages that lead to PTOA developing: rapid inflammation that starts damaging joint tissue immediately, followed by long-term mechanical joint breakdown. Knowing this means that treatments can be identified, studied and targeted to the development stage of the condition.

- AMPA and kainate glutamate receptors, proteins found on the surface of joint cells and expressed in osteoarthritic joints, are a potential target to treat PTOA. When blocked in mice, swelling and joint damage was reduced by up to 45%.



Intellectual property

Patents for this potential target to treat PTOA have been granted in the US, Europe and China.



New networks

Promising investigational medicines that use this approach are now being explored from this patent in collaboration with industry partners to treat PTOA. These medicines have been safely used in humans for other diseases and could be quickly repurposed for the prevention of osteoarthritis.



Patient and public involvement

The trial methods that could be used to test these drugs are being shaped with lived experience, identifying their priorities and preferences to boost engagement with a future clinical study.

Mae niweidio'ch cymalau yn effeithio ar y cydbwysedd

Yn ogystal â PTOA, gall celloedd cymalau brofi newidiadau hefyd yn dilyn gorlwytho mecanyddol – newidiadau a allai ddatgelu targedau triniaeth newydd.



Gwybodaeth newydd

Mae ymchwilwyr y Ganolfan wedi dysgu bod gorlwytho mecanyddol yn arwain at y canlynol:

01

Anghydbwysedd mewn system gyfathrebu celloedd o'r enw Wnt, sydd fel arfer yn helpu meinweoedd i dyfu, datblygu ac atgyweirio yn ddiraffferth.

02

Anhrefn yn cytosgerbwd – celloedd y cartilag – strwythur sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gynnal cymalau iach.

03

Camgyfathrebu rhwng y matrics allgellog a chelloedd y cartilag, gan achosi difrod strwythurol a dolen adborth droellog sy'n cyflymu difrod yn y cymal.

04

Llwybrau PKR a PERK wedi'u actifadu – system ymateb protein sy'n hanfodol ar gyfer cynnal cyfanrwydd y cymalau.

Damaging your joints disturbs the balance

As well as PTOA, joints can also experience other changes at the cellular level following mechanical overloading – changes that could reveal new treatment targets.



New knowledge

Centre researchers have learned that mechanical overloading leads to:

01

Imbalances in a cell communication system called Wnt, which typically helps tissues to grow, develop and repair normally.

02

Disorganisation in the cartilage cell cytoskeleton – a structure that plays a crucial role in maintaining healthy joints.

03

Miscommunication between the extracellular matrix and cartilage cells, causing structural damage and a spiralling feedback loop that accelerates damage in the joint.

04

Activated PKR and PERK pathways – a protein response system that is essential for maintaining joint integrity.



Gwybodaeth newydd

Mae maeth yn chwarae rhan hanfodol mewn cynifer o agweddau ar ein hiechyd. Efallai nad yw'n syndod felly bod ymchwilwyr y Ganolfan hefyd â diddordeb mewn cysylltiadau posibl rhwng iechyd cymalau a'n deiet. Mae dau asid brasterog omega-3 naturiol a geir mewn pysgod olewog, o'r enw EPA a DHA, yn lleihau traul ar y **cartilag** a achosir gan brotein llidiol o'r enw IL-1 β . Roedd ymchwil flaenorol wedi dangos bod EPA a DHA yn gallu lleihau mynegiant genynnau sy'n niweidio **cartilag** ar lefel foleciwlaidd, ond dyma'r astudiaeth gyntaf i ddangos yr effeithiau hyn yn digwydd mewn meinwe **cartilag**.



Rhwydweithiau newydd

Gydag £1 miliwn wedi'i ddyfarnu gan UK Research and Innovation, sefydlwyd OATech Network+ gan yr Athro Cathy Holt. Bu'n rhedeg o 2017 i 2022. Daeth y rhwydwaith ag ymchwilwyr osteoarthritis blaenllaw y DU ynghyd i gydweithio, nodi bylchau gwybodaeth yn y maes, a chyhoeddi papurau sy'n tynnu sylw at bynciau pwysig i ymchwilio iddynt yn y dyfodol.



New knowledge

Nutrition plays a crucial role in so many aspects of our health. So perhaps it's no surprise that Centre researchers are also interested in potential links between joint health and our diet. Two natural omega-3 fatty acids found in oily fish, called EPA and DHA, reduce **cartilage** breakdown induced by an inflammatory protein called IL-1 β . Previous research had shown that EPA and DHA can reduce the expression of genes that damage **cartilage** at a molecular level, but this was the first study to show these effects occurring in **cartilage** tissue.



New networks

With £1 million awarded by UK Research and Innovation, the OATech Network+ was established by Professor Cathy Holt. It ran from 2017 to 2022 and brought together world-leading osteoarthritis researchers across the UK to collaborate, identify knowledge gaps in the field, and publish papers that highlight important topics for future investigation.

Stori Deborah

“Dwi’n fiolegydd celloedd moleciwlaidd a dwi’n arwain y gwaith ymchwil cyn-glinigol sy’n cael ei wneud drwy’r Ganolfan. Fy mhrif ddiddordeb yw ceisio deall achosion moleciwlaidd osteoarthritis er mwyn, o bosibl, datblygu triniaethau newydd yn y dyfodol.”



Sut mae’r Ganolfan wedi helpu ymchwil Deborah?

“Diolch i gyllid hirdymor a ddarparwyd gan y Ganolfan, rydyn ni wedi casglu miloedd o samplau gyda data clinigol a biomecaneg cyfatebol. Roedd adnoddau’r Ganolfan hefyd wedi rhoi modd i ni reoli’r prosesau moesegol cymhleth sy’n ofynnol i gynnal a storio’r samplau hyn am flynyddoedd. Mae’r samplau hyn yn hynod werthfawr; maen nhw’n gosod y sylfaen ar gyfer yr holl waith ymchwil cyn-glinigol a wnawn yn y Ganolfan.

Hefyd, roedd y Ganolfan wedi caniatáu i ni adeiladu màs critigol o ymchwilwyr sy’n siarad yr un ‘iaith’ ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Mae wedi creu etifeddiaeth barhaol trwy ariannu cymrodwr sydd bellach yn ddarlithwyr, darllenwyr ac ymchwilwyr annibynnol hynod lwyddiannus. Trwy’r Ganolfan, cawsom fynediad hefyd at fwrdd cynghori gwyddonol a ddarparodd arbenigedd rhyngwladol gwych. Nid yn unig y gwnaeth hyn wella ein gwyddoniaeth ond agor y maes yn rhyngwladol i gydweithio ag eraill a rhannu ein canfyddiadau yn ehangach.”

Beth mae ymchwil Deborah wedi’i ddarganfod?

“Mae’r celloedd mwyaf cyffredin yn ein hesgryn (sef osteocytes), yn helpu i gynnal a chadw’r esgryn, ac maen nhw’n gallu cael eu modelu i adnabod y ffactorau moleciwlaidd sy’n achosi osteoarthritis a phrofi meddyginiaethau posibl. Cyn ein gwaith ymchwil, nid oedd osteocytau’n cael eu hystyried yn chwaraewr allweddol mewn osteoarthritis. Roedd yn fath o gell heb ei astudio’n ddigonol, ac nid oedd model yn bodoli. Rydyn ni wedi datblygu model osteocytau ac wedi defnyddio ein labordy llwytho mecanyddol uwch yn y Ganolfan i amlygu eu gwir pwysigrwydd. Mae 7,500 o enynnau mewn osteocyt yn ymateb i un ysgogiad mecanyddol, ac mae llawer ohonynt yn ymwneud â phoen a chlefyd y cymalau.

Rydyn ni wedi profi meddyginiaeth sydd wrthi’n cael ei datblygu (o’r enw gwrthweithydd derbynnydd glwtamad) o’i chymharu â meddyginiaethau eraill sy’n cael eu defnyddio’n gyffredin at anafiadau, fel steroidau ac asid hyalwronig. Gwelsom fod ein meddyginiaeth yn llawer mwy effeithiol wrth leihau chwydd, llid a dirywiad cymalau mewn llygod. Mae’r gwelliant hwn yn sylweddol - pe bai’r feddyginiaeth hon yn cael ei rhoi ddwywaith, gallai amddiffyn dirywiad y cymal hyd at 45%. Mae patent ar gyfer y gwrthweithydd derbynnydd glwtamad hwn wedi’i gymeradwyo, ac rydyn ni nawr yn archwilio ei botensial i atal osteoarthritis mewn meddygaeth ddynol a milfeddygol.”

Deborah's story

"I'm a molecular cell biologist and lead the pre-clinical research we conduct through the Centre. My main interest is in trying to understand the molecular causes of osteoarthritis to potentially develop new treatments in the future."



How has the Centre helped Deborah's research?

"Thanks to long-term funding provided by Centre, we have been able to collect thousands of samples with matched clinical and biomechanics data. Centre resource also enabled us to manage the complex ethics processes required to maintain and store these samples for years. These samples are incredibly valuable; they lay the foundation for all pre-clinical research we do at the Centre.

The Centre also allowed us to build a critical mass of researchers who speak the same 'language' across different disciplines. It has created a lasting legacy by funding fellows who are now lecturers, readers and highly successful independent researchers. Through the Centre, we also had access to a scientific advisory board who provided fantastic international expertise. This not only improved our science but opened the field internationally to collaborate with others and share our findings more widely."

What has Deborah's research discovered?

"The most common cell type in our bones (called osteocytes), which orchestrate bone maintenance and repair, can be modelled to identify molecular drivers of osteoarthritis and test potential drugs. Before our research, osteocytes weren't considered a key player in osteoarthritis. It was an understudied cell type, and no model existed. We've developed an osteocyte model and used our advanced mechanical loading laboratory at the Centre to highlight their true importance. 7,500 genes in an osteocyte respond to a single mechanical stimulus, many of which relate to pain and joint disease.

We have tested a drug in development (called a glutamate receptor antagonist) in comparison with other drugs commonly used for injury, such as steroids and hyaluronic acid. We found that our drug was far more effective in reducing joint swelling, inflammation and degeneration in mice. This improvement is profound – if this drug was given twice, it could protect joint degeneration by up to 45%. A patent for this glutamate receptor antagonist has been granted, and we are now exploring its potential to prevent osteoarthritis in both human and veterinary medicine."

04

Rhwydweithiau newydd a'r genhedlaeth nesaf

Pam mae hyn yn bwysig i unigolion sydd ag arthritis?

Mae deall a chymhwyso datblygiadau mewn biomecaneg a biobeirianeg i'r byd go iawn yn hanfodol i wella bywydau unigolion sydd ag arthritis.

Drwy hyfforddi cymuned gref o ymchwilwyr rhyngddisgyblaethol, harneisio gwybodaeth o brofiadau byw, rhannu gwybodaeth, meithrin dylanwad a ffurfio cysylltiadau byd-eang ar draws disgyblaethau, mae'r Ganolfan yn helpu'r maes pwysig hwn i ffynnu nawr ac yn y dyfodol.



04

New networks and next generation

Why is this important to people with arthritis?

Understanding and applying advances in biomechanics and bioengineering to the real-world is vital to improve the lives of people with arthritis.

By training a strong community of interdisciplinary researchers, harnessing lived experience insights, sharing knowledge, building influence and forming global connections across disciplines, the Centre is helping this important field to flourish now and into the future.



Sgiliau a dylanwad newydd

Cefnogwyd mwy na

50

o fyfyrwyr PhD drwy'r Ganolfan.

5

Nifer y graddau uwch clinigol a ddyfarnwyd i lawfeddygon orthopedig sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr ac arbenigwyr yn hanfodol er mwyn gosod y sylfaen ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Drwy roi sgiliau a gwybodaeth newydd i'r bobl dalentog hynny sy'n dod i'r amlwg, rydym yn gosod y sylfaen ar gyfer datblygiadau arloesol a fydd yn newid bywydau.



Meithrin capasiti

Cefnogwyd dros 50 o fyfyrwyr PhD drwy'r Ganolfan. Un ohonynt oedd Dr Robert Letchford. Heddiw, Robert yw Ffisiotherapydd Ymgynghorol mewn Adsefydlu Cyhyrsgerbydol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Arweinydd Clinigol ar gyfer Rhwydwaith Clinigol Strategol Perfformiad a Gwella Iechyd Cyhyrsgerbydol GIG Cymru.

Drwy'r Ganolfan, dyfarnwyd graddau uwch clinigol hefyd i bum llawfeddyg orthopedig proffil uchel sy'n gweithio yng Nghymru, gan gynnwys:

Mr Andrew Metcalfe,

sydd bellach yn gwasanaethu ar bwyllgor canllawiau gosod cymalau newydd NICE.

Ms Alison Kinghorn,

sydd bellach yn Llawfeddyg Trawma ac Orthopedig Ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda, Cymru.



Mr Andrew Miller

"Fel llawfeddyg orthopedig, mae'r cyfle i ryngweithio â gwyddonwyr yn y Ganolfan wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi gwella fy nealltwriaeth o broses y clefyd y tu ôl i osteoarthritis yn aruthrol."

Llawfeddyg Orthopedig Ymgynghorol.



Dr June Madete

"Ar hyn o bryd dwi'n Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Kenyatta, Kenya, yn cefnogi rhaglen addysg raddedig sy'n paratoi myfyrwyr i fod y genhedlaeth nesaf o ddyfeiswyr ac entrepreneuriaid yn Kenya."

Y sgiliau wnes i eu trosglwyddo pan ddychwelais i Kenya oedd cynghori ar dreialon clinigol, cyfathrebu â chleifion, gweithio fel tîm ac ysgrifennu ceisiadau am grantiau."

Cyn-fyfyrwr PhD y Ganolfan a oedd yn arbenigo mewn dadansoddi symudiadau a biomecaneg yr aelodau isaf.

New skills and influence

More than

50

PhD students were supported through the centre.

5

clinical higher degrees were awarded to orthopaedic surgeons working in Wales.

Training the next generation of researchers and experts is vital to lay the foundation for success in the future. By equipping emerging talent with new skills and knowledge, we lay the groundwork for life-changing breakthroughs.



Capacity building

Over 50 PhD students were supported through the Centre. One of whom was Dr Robert Letchford. Today, Robert is Consultant Physiotherapist in Musculoskeletal Rehabilitation at Cardiff and Vale University Health Board and Clinical Lead for the Musculoskeletal Health NHS Wales Performance and Improvement Strategic Clinical Network.

Through the Centre, clinical higher degrees were also awarded to five high profile orthopaedic surgeons working in Wales, including:

Mr Andrew Metcalfe,

who now serves on the NICE joint replacement guideline committee.

Ms Alison Kinghorn,

who is now a Consultant Trauma and Orthopaedic Surgeon at Hywel Dda Health Board, Wales.



Mr Andrew Miller

“As an orthopaedic surgeon, the opportunity to interact with scientists at the Centre has been invaluable and hugely improved my understanding of the disease process behind osteoarthritis.”

Consultant Orthopaedic Surgeon.



Dr June Madete

“I am currently a Senior Lecturer at Kenyatta University, Kenya supporting a graduate education programme that prepares students to be Kenya’s next generation of inventors and entrepreneurs.

Skills that I have been able to transfer when I returned to Kenya were advising on clinical trials, patient communication, working as a team and grant writing.”

Former Centre PhD student who specialised in motion analysis and lower limb biomechanics.



Yn 2016, dyfarnwyd Gwobr Cyflawniad Oes i Gyfarwyddwr y Ganolfan ar y pryd, yr Athro Bruce Caterson, gan yr International Combined Orthopaedic Research Societies (ICORS) am ei gyfraniadau hirhoedlog i ymchwil orthopedig.



Meithrin capasiti

Fe wnaeth cyllid y Ganolfan helpu i ddechrau ymchwil orthopedig yng Nghanolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro yn Ysbyty Llandochau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Y safle bellach yw prif ganolfan y GIG o'i fath yng Nghymru. Mae'r tîm llawfeddygol yno'n cynnal mwy na 10,000 o lawdriniaethau bob blwyddyn.



Rhwydweithiau newydd

Mae ymchwilwyr y Ganolfan wedi cynnal dros 30 o ddigwyddiadau allgymorth cyhoeddus i gysylltu ag unigolion sydd ag arthritis. Fe wnaethant hefyd gynnal sioe deithiol yn Hydref 2024 a deithiodd o amgylch Llandrillo-yn-Rhos, Wrecsam, Caerdydd, Caerfyrddin ac Aberystwyth, i lunio a rhannu ehangder gwaith ymchwil y Ganolfan a'i effaith gyda ffisiotherapyddion a'r cyhoedd.

Map y sioe deithiol





In 2016, the Centre Director at that time, Professor Bruce Caterson, was awarded the Lifetime Achievement Award from the International Combined Orthopaedic Research Societies for his longstanding contributions to orthopaedic research.



Capacity building

Centre funding facilitated the start of orthopaedic research at the Cardiff and Vale Orthopaedic Centre at Llandough Hospital, Cardiff and Vale University Health Board. The site is now the leading NHS centre of its kind in Wales. The surgical team there carries out more than 10,000 operations a year.



New networks

Centre researchers have run over 30 public outreach events to connect with people with arthritis. They also ran a roadshow in Autumn 2024 which toured Rhos on Sea, Wrexham, Cardiff, Carmarthen and Aberystwyth, to shape and share the breadth of Centre research and its impact with physiotherapists and the public.

Roadshow map



Cyfranogiad ystyrion

Mewn un digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd gan y Ganolfan ar gyfer unigolion sydd ag arthritis roedd:

100%



o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn teimlo bod eu presenoldeb wedi gwneud gwahaniaeth i ymchwil arthritis yn y dyfodol ym Mhrifysgol Caerdydd.

96%

yn cytuno bod eu gwybodaeth neu eu dealltwriaeth o ymchwil arthritis wedi newid ar ôl y digwyddiad.

'''

Heb ymchwil ac adborth gan gleifion, ni fyddwn yn gallu cynyddu ein gwybodaeth o arthritis, diagnosis, triniaeth a thriniaethau orthopedig posibl yn y dyfodol. Yn y pen draw, byddai hyn yn niweidiol i gleifion sy'n cael trafferth gyda'r clefyd llethol hwn, ac sydd angen gofal.

David Ogden, partner claf.

Meaningful involvement

At one engagement event hosted by the Centre for people with arthritis:

100%



of respondents agreed that they felt their attendance had made a difference to future arthritis research at Cardiff University.


96%

agreed that their knowledge or understanding towards arthritis research had changed after the event.


“””

Without research and patient feedback, we are not going to be able to increase our knowledge of arthritis, diagnosis, treatment and possible future orthopaedic treatments. Ultimately this would be detrimental for patients who are struggling with and require care for this debilitating disease.

David Ogden, patient partner.



Cyrhaeddiad ymchwil



Research reach



Mae gan y
Ganolfan

185

o gydweithwyr
byd-eang


Yn cwmpasu

**Iechyd,
diwydiant ac
academia**

Ar draws

28

o wledydd.



The Centre has

185

global
collaborators

Spanning
health,
industry and
academia

across

28

countries.

Geirfa

Arthroplasti clun

Llawdriniaeth gosod clun newydd.

Cartilag

Sylwedd llyfn sy'n clustogi pennau esgyrn.

Cerddediad (gait)

Y ffordd y mae rhywun yn cerdded.

Cytosgerbwd (cytoskeleton)

Sgerbwd mewnol cell sy'n cadw ei siâp a'i gweithrediad.

Deallusrwydd artiffisial (AI)

System gyfrifiadurol sy'n gallu cyflawni tasgau sydd fel arfer yn gofyn am ddeallusrwydd dynol (megis dysgu, gwneud penderfyniadau neu ddatrys problemau).

Ffenoteip (am glefyd)

Sut mae clefyd yn ymddangos neu'n ymddwyn mewn gwahanol bobl.

Fflworosgopeg (fluoroscopy)

Techneg delweddu meddygol anfewnwithiol sy'n creu fideo amser real y tu mewn i'r corff.

Ligament croesffurf blaen (anterior cruciate ligament) (ACL)

Band o feinwe y tu mewn i'r pen-glin sy'n cysylltu'ch clun â'ch croen. Mae'n helpu i sefydlogi'ch pen-glin pan fyddwn yn troi, yn troelli neu'n stopio'n sydyn.

Llwytho mecanyddol (mechanical loading)

Y ffordd mae pwysau a gwasgedd yn lledaenu trwy ein hesgyrn a'n cymalau wrth i ni symud.

Matrics allgellog (extracellular matrix)

Proteinau, carbohydradau a mwynau sy'n amgáu'r celloedd ac yn rhoi strwythur i'r meinweoedd.

Glossary

Anterior cruciate ligament (ACL)

Band of tissue inside the knee that connects our thigh to our shin. It helps stabilise our knee when we turn, twist or suddenly stop.

Artificial intelligence (AI)

Computer system able to perform tasks that typically require human intelligence (such as learning, decision-making or problem-solving).

Cartilage

Smooth cushioning substance covering the ends of bones.

Cytoskeleton

A cell's internal skeleton that keeps its shape and function.

Early-stage osteoarthritis

Beginning phase of osteoarthritis, where the breakdown of cartilage in joints is minimal.

Extracellular matrix

Proteins, carbohydrates and minerals that encase the cells and provide structure to the tissues.

Fluoroscopy

Non-invasive medical imaging technique that creates a real-time video inside the body.

Gait

The way a person walks.

High tibial osteotomy (HTO)

Surgical procedure that treats early-stage osteoarthritis in the knee by correcting misaligned bones in the femur and shin.

Hip arthroplasty

Hip replacement surgery.

Inertial Measurement Units (IMUs)

A system of sensors that measure movement and direction.

Osteoarthritis cyfnod cynnar

Cyfnod cychwynnol osteoarthritis, lle mae traul cartilag yn y cymalau yn fach iawn.

Osteoarthritis cyfnod hwyr

Cyfnod diweddarach osteoarthritis lle mae newidiadau i'r esgyrn a thraul i'r cartilag yn sylweddol.

Osteoarthritis wedi trawma (PTOA)

Math o osteoarthritis sy'n deillio o anaf i'r cymal.

Osteocyt

Y gell asgwrn fwyaf cyffredin sy'n rheoli ymatebion esgyrn i lwyth mecanyddol.

Osteotomi y tibia uchaf (high tibial osteotomy) (HTO)

Gweithdrefn lawfeddygol sy'n trin osteoarthritis cyfnod cynnar yn y pen-glin trwy gywiro esgyrn sydd wedi'u camlinio yn y ffemwr a'r goes.

Pen-glin hollol newydd (TKR)

Gweithdrefn lawfeddygol i drin osteoarthritis cyfnod hwyr sy'n defnyddio mewnbaniad yn lle'r asgwrn a'r cartilag sydd wedi'u difrodi. Fe'i gelwir hefyd yn arthroplasti cymal cyflawn (TJA).

Unedau Mesur Inertiol (Inertial Measurement Units) (IMUs)

System o synwryddion sy'n mesur symudiad a chyfeiriad.

Late-stage osteoarthritis

Advanced phase of osteoarthritis where there are substantial bone changes and cartilage breakdown.

Mechanical loading

How weight and pressure spreads through our bones and joints as we move.

Osteocyte

The most common bone cell that controls bone responses to mechanical load.

Phenotype (of a disease)

How a disease appears or behaves in different people.

Post-traumatic osteoarthritis (PTOA)

A form of osteoarthritis that arises from a joint injury.

Total knee replacement (TKR)

Surgical procedure to treat late-stage osteoarthritis that involves replacing damaged bone and cartilage with an implant. It is also known as total joint arthroplasty (TJA).

Ymunwch â'n cymuned

Cofrestrwch heddiw a byddwn mewn cysylltiad drwy e-bost sawl gwaith y mis gyda'r newyddion diweddaraf am arthrits, gan gynnwys yr ymchwil a'r ymgyrchoedd diweddaraf, yn ogystal ag awgrymiadau a chynghor ynghylch sut i fyw'n dda gydag arthrits, a ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan.

arthritis-uk.org/signup

Chwiliwch am 'Arthritis UK' ar Facebook, Instagram, X, TikTok a YouTube



Registered with
**FUNDRAISING
REGULATOR**

Wedi'i gofrestru gyda'r
RHEOLYDD ARIANNU

Elusen Gofrestredig Arthritis UK Cymru a
Lloegr Rhif 207711, Yr Alban Rhif SC041156.

 **Arthritis**^{UK}
Cymru

Join our community

Sign up today and we'll be in touch by email a few times a month with the latest arthritis news, including research and campaign updates, as well as tips and advice about how to live well with arthritis, and ways you can get involved.

arthritis-uk.org/signup

Search 'Arthritis UK' on Facebook, Instagram, X, TikTok and YouTube



Registered with
**FUNDRAISING
REGULATOR**

Arthritis UK Registered Charity England and
Wales No. 207711, Scotland No. SC041156.

 **Arthritis**^{UK}
Cymru